



TRAFNIDIAETH
CYMRU
TRANSPORT
FOR WALES

Strategaeth effaith
carbon isel
2019/20



Cynnwys

Cipolwg	3
Rhagair	4
Ein gyrwyr	5
Ein hymrwymiaadau	6
Y Saith Nod Llesiant	6
Ein pum Ffordd o Weithio	7
Amserlen	8
Ein hamcanion	10
Atodiad A: Targedau amgylcheddol	11

Cipolwg

Yn Trafnidiaeth Cymru rydym yn barod i chwarae ein rhan wrth helpu i leihau allyriadau carbon Cymru.



100%

ynni adnewyddadwy ar
Linellau Craidd y
Cymoedd erbyn 2023



50%


o ynni adnewyddadwy wedi ei
gynhyrchu yng Nghymru erbyn
2025



Dros £7 miliwn

o wariant ar dechnoleg adnewyddadwy

Allyriadau trafndiaeth Cymru 2016



MtCO₂e miliwn o dunelli o garbon deuocsid - cyfystyr

Rhagair

Mae hinsawdd y byd yn newid yn gyflym. Mae tystiolaeth yn dangos mai bodau dynol sy'n gyfrifol am y mwyafrif o gynhesu byd-eang.

Ym mis Ebrill 2019, Llywodraeth Cymru oedd y gyntaf yn y Deyrnas Unedig i ddatgan 'Argyfwng Hinsawdd', ac erbyn Mehefin 2019 cyhoeddodd Pwyllgor y Deyrnas Unedig ar Newid Hinsawdd (UKCCC) argymhelliad newydd ar gyfer gostyngiad o 95% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050. Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy dderbyn yr her newydd hon, ac aeth un cam ymhellach drwy addo cyflawni allyriadau sero net erbyn 2050.

Er mwyn helpu i gyflawni'r nod uchelgeisiol hwn, rydym wedi gweithredu Strategaeth Effaith Carbon Isel i leihau'r allyriadau sy'n deillio o'n gwasanaethau.

Mae dros 3 miliwn o bobl yn dibynnu ar seilwaith trafniadaeth y wlad yn ddyddiol, a'n nod yw helpu trafniadaeth yng Nghymru i ddod yn wirioneddol gynaliadwy ac yn addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae datgarboneiddio trafniadaeth yn her sylweddol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae allyriadau trafniadaeth wedi aros yn sefydlog ar y cyfan er bod effeithlonrwydd cerbydau wedi bod yn gwella'n raddol. Yng Nghymru, mae teithio mewn ceir a cherbydau modur eraill yn cyfrannu at oddeutu 2,000 o farwolaethau bob blwyddyn, a achosir yn bennaf gan nitrogen deuocsid, osôn a deunydd gronynnol yn yr awyr.

Yn y tymor byr, y ffordd fwyaf effeithiol o leihau allyriadau CO2 Cymru fydd annog rhagor o bobl i gerdded, beicio neu ddefnyddio trafniadaeth gyhoeddus.

Er mwyn ategu hyn, rydym yn gwneud buddsoddiad sylweddol yn y gwasanaeth rheilffyrdd a'r system metro newydd. Rydym yn ailwampio delwedd a dibynadwyedd trafniadaeth gyhoeddus yng Nghymru i'w gwneud yn ddewis amgen mwy dymunol yn lle gyrru.

Bydd y gwelliannau rydyn ni'n eu gwneud yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyrraedd targedau datgarboneiddio uchelgeisiol Cymru, gan hefyd leihau anghydraddoldebau, gwella iechyd corfforol a meddyliol, a helpu i leihau llygredd aer

Rydym yn llawn cyffro wrth gynorthwyo Llywodraeth Cymru i gofleidio'r newid hwn drwy fuddsoddi mewn seilwaith a chyflwyno ein cerbydau newydd.

Ein gyrwyr

Strategaeth newid yn yr hinsawdd ar gyfer Cymru

Cyflawni gostyngiad o leiaf 40% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru erbyn 2020 mewn cymhariaeth â llinell sylfaen 1990

Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel

Gosod y sylfeini i Gymru ddod yn genedl carbon isel

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Sicrhau ein bod ni i gyd yn gweithio tuag at yr un canlyniad

Y Cytundeb Grant

Yn nodi ein hymrwymiadau i leihau carbon

Ein hymrwymiaidau

- Rydym yn lleihau allyriadau trenau drwy fesurau effeithlonrwydd cerbydau a thanwydd
- Rydym yn uwchraddio ein cerbydau presennol dros y 3 blynedd nesaf
- Mae ein holl drydan yn cael ei gaffael o ffynonellau adnewyddadwy gyda 50% o hyn i'w gynhyrchu yng Nghymru erbyn 2025.
- Drwy drydaneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd, byddwn yn gallu sicrhau nad yw gwasanaethau ar hyd y llwybrau hyn yn defnyddio unrhyw danwydd disel, gan gyflawni 100% o filltiroedd teithwyr o dan bŵer dim carbon.
- Rydym yn darparu seilwaith i ategu defnyddio cerbydau trydan
- Gosod storfa feiciau i annog ein teithwyr i feicio i orsafoedd

Rydym hefyd wedi ymrwymo i osod y canlynol yn ein gorsafoedd:

- Paneli solar (PV),
- Goleuadau LED mwy effeithlon
- Pwyntiau gwefru cerbydau trydan

Saith nod llesiant

Mae ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn dangos ein hymrwymiad tuag at bob un o'r saith Nod Llesiant. Fodd bynnag, y ddau sydd fwyaf perthnasol i'r Strategaeth hon yw 'Cymru Gydnerth' a 'Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang'.



Ein pum ffordd o weithio



Atal

Implementing our Low Carbon Impact Strategy in relation to traffic and traffic miles will reduce emissions as much as reasonably possible and help prevent further increases in global temperatures as well as other consequences of global warming.



Long-term

Whilst work to enable the electrification of the Core Valley Lines will cause some disruption in the short-term, once completed this will improve air quality.



Integration

By providing safe cycle routes and secure cycle storage we will integrate the railway with active travel in the community and promote the shift to more sustainable forms of transport.



Collaboration

We're collaborating with a number of other organisations to ensure we achieve our vision of a low carbon railway.



























































































































Cymryd Rhan

Ein bod ni gyd yn gweithio tuag at yr un nod.

Amserlen

Blwyddyn ariannol

	18/19	19/20	20/21	21/22	22/23	23/24	24/25	25/26	26/27
Mabwysiadu Strategaeth Effaith Carbon Isel									
Sefydlu targedau lleihau carbon									
Cyfrif yn flynyddol yr allyriadau carbon amcangyfrifedig a gynhrychir wrth gyflawni ein gwasanaethau									
Gweithredu Strategaeth Effaith Carbon Isel mewn perthynas â thraffig a milltiroedd traffig i safleoedd ac oddi yno									
Cyflawni a gweithredu Gwasanaethau Rheilffordd, Gwaith Seilwaith a Gwasanaethau Llinellau Craidd y Cymoedd gan ystyried yr amcan dim carbon									
Gwneud isafswm o £5 miliwn o wariant ar dechnolegau adnewyddadwy erbyn diwedd 2026									
Cronfa dros £2 filiwn ar gael ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy									
Gweithredu Strategaeth Effaith Carbon Isel									
Uwchraddio cerbydau yn raddol i gyfrannu at ostyngiad mewn carbon									
Pennu targedau lleihau carbon unwaith y bydd llinell sylfaen carbon wedi ei chynhyrchu ar gyfer 2018/19									
Y gwasanaeth trenau sy'n cwmpasu Llinellau Craidd y Cymoedd i ddefnyddio dim tanwydd diesel a chyflawni 100% dim carbon									
Gosod systemau cynghori gyrwyr ar gerbydau presennol									
Caffael 100% o drydan o ffynonellau adnewyddadwy gyda 50% o hyn yn dod o ffynonellau adnewyddadwy o Gymru									
Gosod paneli Solar yn yr 20 adeilad gorsaf mwyaf a dau Depo									
Gosod gwefryddion cerbydau trydan mewn 10% o fannau parcio mewn meysydd parcio newydd									

Ein hamcanion

Byddwn yn gweithredu ein strategaeth effaith carbon isel.

Rydym yn mabwysiadu'r strategaeth effaith carbon isel hon i helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n deillio o ddarparu ein gwasanaethau yn unol â'r egwyddorion a'r nodau a nodir yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru: 'Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer Cymru'

Strategaeth i'w hysgrifennu ar y cyd a'i gweithredu.

Byddwn hefyd yn gweithredu strategaeth effaith carbon isel mewn perthynas â thraffig a milltiroedd traffig i helpu i fonitro a lleihau'r symudiadau i safleoedd ac oddi yno ar gyfer cludo'r gweithlu a deunyddiau.

Byddwn yn cyfrifo'r amcangyfrif o allyriadau carbon a fydd yn cael eu cynhyrchu wrth gyflawni ein gwasanaethau a byddwn yn darparu amcangyfrif blynyddol a dadansoddiad o sut y cyfrifwyd hyn.

Bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn ein cynorthwyo i gasglu'r data gofynnol ac yna'n cyfrifo ein hól troed carbon gweithredol, ar gyfer ein swyddfeydd, gorsafoedd a depos yn ogystal â cherbydau a chludiant dan ein perchnogaeth ar gyfer blwyddyn waelodlin 2018/19.

Yna darperir offeryn ôl troed sefydliadol wedi ei seilio ar Safon Gorfforaethol Protocol Nwyon Tŷ Gwydr fel y gallwn gyfrifo ôl troed carbon ein gweithrediadau uniongyrchol.

Byddwn yn sefydlu targedau lleihau carbon erbyn 1 Ebrill 2020.

Ar ôl cyfrif ein llinell sylfaen carbon weithredol (Cwmpas 1 a 2) ar gyfer blwyddyn 2018/19, byddwn yn sefydlu targedau lleihau carbon.

Lle bo hynny'n rhesymol ymarferol, byddwn yn darparu ac yn gweithredu gwasanaethau trenau, gwaith seilwaith a gwasanaethau Llinellau Craidd y Cymoedd gan ystyried amcan Llywodraeth Cymru o ddim carbon.

Bydd cyflwyno'r Cerbydau Metro arddull "tram-trên" newydd gyda gallu rhedeg hybrid 25kV/batri yn 2023 yn ein galluogi i gyflawni'r rhwymedigaeth hon.

Byddwn hefyd yn gweithio i leihau ein hól troed carbon ymhellach drwy:

- Gosod mesuryddion ynni craff i fonitro'r defnydd o ynni a dangos syniadau/tystiolaeth o sut gellir lleihau hyn
- Llogi cerbydau/peiriannau cwbl drydan/hybrid i leihau allyriadau
- Gosod pwyntiau gwefru/defnyddio pwyntiau gwefru presennol ar gyfer cerbydau a helpu i hyrwyddo 'ynni gwyrdd'
- Defnyddio monitorau cab/cerbyd i gofnodi a chyflenwi adborth i yrwyr ynghylch effeithlonrwydd tanwydd a dangos sut gellir gwella hyn
- Defnyddio cyfrifiannell carbon i gofnodi allyriadau carbon drwy gydol y prosiect a dangos ffyrdd o leihau'r defnydd o garbon
- Gosod paneli Solar mewn compowndiau/gorsafoedd
- Dangos gohebiaeth/tystiolaeth o ddefnyddio peiriannau/offer/gorsafoedd gwefru neu debyg pŵer solar.

Erbyn 31 Rhagfyr 2023 fan bellaf, byddwn yn sicrhau na fydd y gwasanaeth trenau sy'n cwmpasu Llinellau Craidd y Cymoedd yn defnyddio unrhyw danwydd disel ac yn cyflawni 100% o gapasiti milltiroedd teithwyr o dan bŵer dim carbon (heblaw am Ddigwyddiadau Arbennig ac adferiad o aflonyddwch).

Mae trenau newydd Metro Tri-Modd (diesel, batri a thrydan) yn cael eu cyflwyno yn 2023:

- Saith uned trêen Tri-Modd gyda 3-cherbyd
- 17 trêen Tri-Modd gyda 4-cherbyd
- 36 Tram-trêen gyda tri-cherbyd

Bydd y trenau Tri-Modd yn defnyddio cymysg o trydan a batri i bweru trenau o Rhymni a Choryton gyda disel ar llinell Bro Morgannwg, Y Barri a Phenarth.

Bydd y Tram-trêen yn defnyddio pŵer trydanol a batri ar gyfer trenau Merthyr Tydfil, Aberdâr a Threherbert.

Ni fydd Llinellau Craidd y Cymoedd yn defnyddio unrhyw tanwydd diesel.

Byddwn yn uwchraddio ein trêenau er mwyn gostwng ein allyriant carbon.

Bydd cerbydau newydd yn cael eu cyflwyno i ddisodli ein Pacers. Bydd y trenau hyn y cynnwys gwell mesuriadau effeithlonrwydd er mwyn help lleihau ein allyriadau.

Fodd bynnag, bydd y gostyngiad mwyaf mewn allyriadau carbon oherwydd newid i ddewisiadau teithio mwy cynaliadwy fel trafnidiaeth gyhoeddus a beicio. Mae enghreifftiau o sut byddwn yn hyrwyddo'r newid hwn yn cynnwys:

- creu llwybrau beicio diogel i'n gorsafoedd
- rhoi manau storio beiciau diogel mewn gorsafoedd
- darparu gwybodaeth deithio gyfredol, hygyrch
- gosod gwefryddion cerbydau trydan yn rhai o'n lleoliadau

Erbyn Ebrill 2020, byddwn yn gosod systemau cynghori gyrwyr ar gerbydau er mwyn rhoi adborth i yrwyr ar berfformiad effeithlonrwydd tanwydd.

Ar hyn o bryd, mae systemau cynghori gyrwyr wedi eu gosod ar ein holl fflyd ac eithrio'r c153 a'r DVT (Driving Van Trailer).

Byddwn yn sicrhau bod 100% o'n trydan yn dod o ffynonellau adnewyddadwy, gyda 50% o hyn yn cael ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddadwy yng Nghymru erbyn 2025. Byddwn yn monitro ac yn adrodd ar y canrannau hyn.

Mae ein holl drydan yn cael ei ddarparu gan SSE ar eu tariff Gwyrdd. Mae'r tariff hwn yn darparu tystysgrifau REGO (Gwarant Tarddiad Ynni Adnewyddadwy) ar gyfer pob awr megawat o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir. Mae'r defnydd a ddefnyddir yn cael ei gyfateb â chyfaint cyfatebol o drydan adnewyddadwy a gynhyrchir o ffynonellau gwynt a hydro ar raddfa fawr a'i allforio i'r Grid Cenedlaethol. Mae adroddiad misol hefyd ar gael i ddangos sut cynhyrchwyd yr ynni.

Yn amodol ar arolygon a chael y cymeradwyaethau angenrheidiol, byddwn yn gosod paneli solar ar adeiladau'r 20 gorsaf mwyaf a dau depo rhwng Ebrill 2021 ac Ebrill 2024.

Byddwn yn gosod paneli solar yn:

Y Fenni – 130m2
Pen-y-bont ar Ogwr – 130 m2
Bangor – 118 m2
Henffordd– 250 m2
Llanllieni – 100 m2
Caergyb – 380 m2

Llanelli – 100 m2
Casnewydd – 380m2
Prestatyn -194m2
Amwythig - 320m2
Wrecsam Cyffredinol – 300m2

Bydd cronfa gwerth £2,339,000 ar gael ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys gosod paneli Solar PV mewn gorsafoedd a depos lle bo hynny'n ymarferol, biniau ailgylchu newydd mewn gorsafoedd a chynlluniau cynaeafu dŵr glaw newydd erbyn Ebrill 2023.

Rydym hefyd wedi creu rhestr o orsafoedd rydym yn teimlo sy'n lleoliadau delfrydol i gael cynlluniau cynaeafu dŵr glaw:

Byddwn yn gwario £5,000,000 ar dechnolegau adnewyddadwy, gan gynnwys gosod paneli ffotofoltäig, goleuadau LED ac offer cynaeafu dŵr glaw erbyn Ebrill 2026.

Y Fenni
Aberystwyth
Bangor
Caerdydd Canolog
Caerfyrddin

Bae Colwyn
Y Fflint
Henffordd
Caergybi
Cyffordd Llandudno

Yn ystod ein harolygon cychwynol, fe wnaethon ni nodi nifer y biniau ailgylchu sydd yn ein gorsafoedd ar hyn o bryd (a'u cyflwr) a byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i'n tywys wrth fuddsoddi mewn biniau ailgylchu newydd.

Mae goleuadau LED yn effeithlon iawn, yn cynnig gostyngiadau sylweddol yn y defnydd o ynni ac maen nhw ar gael ar gyfer bron pob defnydd. Maen nhw hefyd yn allyrru llai o wres na bylbiau traddodiadol yn ogystal â meddu ar fywydau gweithredu hirach. Gan weithio ar y cyd â Network Rail (sy'n berchen ar y canopiâu a'r goleuadau yn ein gorsafoedd), byddwn yn gosod y rhain lle bynnag y bo modd. Byddwn hefyd yn sicrhau bod goleuadau LED yn cael eu gosod yn ein lleoliadau eraill ac yn defnyddio mesurau arbed ynni ychwanegol fel switshis amser, PIR a synwryddion golau dydd.

Byddwn yn cefnogi cynnydd yn y seilwaith gwefru Cerbydau Trydan drwy osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn 10% o'r manau parcio sydd ar gael mewn meysydd parcio newydd. Byddwn hefyd yn gosod pwyntiau gwefru mewn gorsafoedd addas eraill ar draws y rhwydwaith i sicrhau bod y seilwaith yno i ategu defnyddio cerbydau trydan.

Ar hyn o bryd, bydd y rhestr ganlynol o orsafoedd yn cael ei hystyried ar gyfer gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan.

Bangor
Y Barri
Caerdydd Canolog
Caer
Henffordd
Newport
Port Talbot
Radur

Cyffordd Twannel Hafren
Amwythig
Caerfyrddin
Hwlfordd
Pen-y-bont ar Ogwr
Wrecsam Cyffredinol
Bae Colwyn
Dinbych-y-pysgod

Atodiad 1

Targedau amgylcheddol

“Allyriadau Cwmpas 1, 2 a 3”

Cwmpas 1: allyriadau yw'r rhain sy'n codi'n uniongyrchol o ffynonellau sy'n eiddo i ni neu sy'n cael eu rheoli gennym ni - er enghraifft, o danwydd a ddefnyddir i wresogi neu bweru adeiladau neu gerbydau pŵer

Cwmpas 2: dyma'r allyriadau a gynhyrchir gan drydan a brynwyd a ddefnyddir gennym ni a'n contractwyr a'r gadwyn gyflenwi

Cwmpas 3: mae'r allyriadau hyn yn ganlyniad i'n gweithgareddau, yn ogystal â'n contractwyr a'n cadwyn gyflenwi, ond maen nhw'n dod o ffynonellau nad ydyn nhw'n eiddo i'r sefydliadau hyn nac o dan eu rheolaeth. Mae hyn yn cynnwys allyriadau sy'n gysylltiedig â gwastraff, dŵr, teithio busnes, cymudo a chaffael.

Disgrifiad	Targed	Mesur	Amllder adrodd
Carbon (CO2e) Allyriadau cwmpas 1 Tyniant Llinellau Craidd y Cymoedd (diesel)	Gostyngiad o 100% erbyn diwedd 2023	<ul style="list-style-type: none"> Cilogram fesul uned o gilometr Capasiti Cario Teithwyr (Targed) Cilogram fesul km teithwyr (dim targed) Cyfanswm y Tunelli (dim targed) 	Yn flynyddol
Allyriadau Cwmpas 1 Carbon (CO2e) Tyniant Cymru a'r Gororau (diesel)	Gostyngiad o 30% erbyn diwedd 2023	<ul style="list-style-type: none"> Cilogram fesul uned o gilometr Capasiti Cario Teithwyr (Targed) Cilogram fesul km teithwyr (dim targed) Cyfanswm y Tunelli (dim targed) 	Yn flynyddol

Disgrifiad	Targed	Mesur	Amllder adrodd
Allyriadau Cwmpas 2 Carbon (CO2e) - trydan a gaffaelir gan yr ODP	Gostyngiad o 100% erbyn diwedd 2023	Cyfanswm y tunelli	Yn flynyddol
Allyriadau Cwmpas 3 Carbon (CO2e) - Carbon wedi ei ymgorffori mewn unrhyw Brosiect Cysylltiedig (fel y'i diffinnir yn Atodiad 1 o Atodlen 3B i'r Cytundeb Grant	A gytunwyd fel rhan o'r Cyfnod Dylunio Rhagarweiniol a Darganfod. Y nod yw dim carbon net.	Cyfanswm y tunelli fesul prosiect unigol	Diwedd y prosiect unigol
Allyriadau Cwmpas 3 Carbon (CO2e) - Gweithrediadau Cymru a'r Gororau	N/A	<ul style="list-style-type: none"> Cyfanswm y tunelli o garbon a arbedwyd drwy newid moddol Cyfanswm y tunelli o garbon a arbedwyd drwy'r gwasanaeth gan dybio y byddai teithiau teithwyr a wnaed ar y trên wedi eu gwneud ar y ffordd 	Yn flynyddol
Allyriadau Cwmpas 3 Carbon (CO2e) - Gweithrediadau Llinellau Craidd y Cymoedd	N/A	<ul style="list-style-type: none"> Cyfanswm y tunelli o garbon a arbedwyd drwy newid moddol Cyfanswm y tunelli o garbon a arbedwyd drwy'r gwasanaeth gan dybio y byddai teithiau teithwyr a wnaed ar y trên wedi eu gwneud ar y ffordd 	Yn flynyddol

Disgrifiad	Targed	Mesur	Amllder adrodd
Ynni a thanwydd o ffynonellau adnewyddadwy o Gymru neu ardaloedd a wasanaethir gan TrC	50%	Oriau Kilowatt (kWh), thermau, litrau % o gyfanswm y trydan % o danwydd a ffynonellau ynni eraill	Yn flynyddol
Gwastraff yn cael ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi i'w aildddefnyddio, ei ailgylchu neu ddefnydd adfer arall, gan gynnwys gwastraff i wres/ ynni	95% erbyn diwedd 2020.	% o gyfanswm y gwastraff	Yn flynyddol
Gwastraff i safleoedd tirlenwi	5% erbyn diwedd 2020	% o gyfanswm y gwastraff	Yn flynyddol
Llygredd aer	Gostyngiad o 100% yn achos Llinellau Craidd y Cymoedd a gostyngiad o 80% i Gymru a'r Gororau erbyn diwedd 2023	a) cliogram nitrogen ocsid fesul km teithwyr (targed) b) Cyfanswm y Tunelli	Yn flynyddol

Disgrifiad	Targed	Mesur	Amllder adrodd
Llygredd aer	N/A	a) Cyfanswm y tunelli nitrogen ocsid a arbedwyd drwy newid moddol b) Cyfanswm y tunelli NOx a arbedwyd drwy'r gwasanaeth trenau gan dybio y byddai teithiau teithwyr a wnaed ar y trê'n wedi eu gwneud ar y ffordd	Yn flynyddol
Hysbysiadau gorfodi/ gwybodaeth	Dim	Nifer a dderbyniwyd	Yn flynyddol
Dirwyon neu erlyniadau amgylcheddol	Dim	Nifer a dderbyniwyd	Yn flynyddol
Digwyddiadau amgylcheddol	Dim	Adroddwyd drwy system rheoli amgylcheddol	Yn flynyddol
Cofnodion hyfforddiant amgylcheddol	100% o weithwyr wedi eu briffio/ hyfforddi	% o bersonél wedi eu briffio/hyfforddi	Yn flynyddol

